# Adroddiad Ymchwiliad Iaith Gweledd y Gymraeg

**Aelodau'r Ymchwiliad**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Y Cynghorydd Charles Wyn Jones
Y Cynghorydd Elfed Williams
Y Cynghorydd Gweno Glyn

**Eraill a wahoddwyd:**
Dr Rhian Hodges, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgol Bangor
Dr Cynog Prys, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgol Bangor

**Swyddogion**
Hawis Jones (Swyddog Arweiniol)
Arwel Ellis Jones (Swyddog Arweiniol – cyfarfod 6 Gorffennaf 2016)
Ann Elizabeth Roberts (Swyddog Cefnogol)

Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Chwefror 2017

**Cynnwys**


| |
|---|
| **Yr Adroddiad** |
| 1. Cyd-destun |
| 2. Pwrpas yr ymchwiliad iaith |
| 3. Prif weithgaredd yr ymchwiliad |
| 4. Prif ganfyddiadau ac argymhellion |
| **Yr Atodiadau** |
| Atodiad 1 – Rhestr o'r rhai a gafodd eu cyfweld |
| Atodiad 2 – Cwestiynau a ofynnwyd i'r Athro Durk Gorter |
| Atodiad 3 – Cwestiynau a ofynnwyd i swyddogion am drefniadau caffael y Cyngor |
| Atodiad 4 – Cwestiynau a ofynnwyd i reolwyr gwasanaethau'r Cyngor |

## 1. Cyd-destun

Wrth i'r Cynghorydd Craig ab Iago gyflwyno Adroddiad yr Ymchwiliad Iaith – Y Gymraeg Mewn Cyfarfodydd i gyfarfod y Pwyllgor Iaith ar 22 Hydref 2015, penderfynwyd nodi dymuniad i edrych ar y maes pa mor weladwy yw'r Gymraeg a gweithio ar friff ar gyfer ymchwiliad. Awdurdodwyd y swyddogion i symud ymlaen gyda'r ymchwiliad.

## 2. Pwrpas yr ymchwiliad iaith

2.1 Mae Cynllun Strategol y Cyngor yn datgan bod y Cyngor am weld sefyllfa lle mae Gwynedd "yn parhau yn gadarnle i'r iaith, a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd ac ar led y sir."

2.2 Pwrpas yr ymchwiliad oedd ystyried y graddau y mae gweledEdd yr iaith, mewn enwau, arwyddion a hysbysiadau ar draws y sir, yn bwysig o ran statws yr iaith a hyder trigolion yn ei defnyddio fel rhan naturiol o waith pob dydd. Bydd hefyd yn ystyried y graddau y mae gan y Cyngor ddylanwad dros y gwelededd hynny ac a oes angen i'r Cyngor wneud mwy.

2.3 Gwnaed hynny drwy:-

a) Ystyried yr ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf o faes Cynllunio Ieithyddol am bwysigrwydd gwelededd yr iaith a thirwedd ieithyddol.

b) Ystyried y meysydd lle y gall y Cyngor sicrhau dylanwad dros dirwedd ieithyddol y sir yn cynnwys:

- Rheolaeth y Cyngor o'r eiddo a'i diroedd ei hun
- Trefniadau caffael y Cyngor
- Amodau grantiau a chymorth y mae'r Cyngor yn ei ddyrannu
- Y graddau o ddylanwad sydd gan y Cyngor ar arwyddion a osodir ar ymylon ffyrdd
- Enwau tai a lleoedd

c) Ystyried gwerth y posibilrwydd o "ardal Gymraeg" i dreialu effaith gwelededd cyson yr iaith Gymraeg.

2.4 Roedd yr ymchwiliad yn anelu at lunio cyfres o argymhellion syml a di-gost i'r Aelod Cabinet gan eu rhannu gyda'r Pwyllgor Iaith cyn iddynt gael eu gweithredu.

## 3. Prif weithgaredd yr ymchwiliad

3.1 Cyfarfu'r ymchwiliad gyda nifer o reolwyr o'r Cyngor a oedd yn gyfrifol am wasanaethau dydd i ddydd a oedd yn effeithio ar ddelwedd weledol yr iaith yng Ngwynedd. Ceir rhestr o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn Atodiad 1.

3.2 Wrth i waith yr ymchwiliad fynd rhagddo, daeth yn amlwg fod angen canolbwyntio yn y lle cyntaf ar yr hyn y gellid ei gyflawni o fewn y Cyngor, ac y byddai hyn yn uchelgais realistig o fewn cyfyngiadau amser yr ymchwiliad. Er bod yr ymchwiliad yn awyddus i barhau i ystyried gwerth y posibilrwydd o "ardal Gymraeg" i dreialu effaith cyson yr iaith Gymraeg, roedd yr aelodau yn awyddus i gyflawni gwelliannau ar draws y Cyngor yn y lle cyntaf. Cytunodd yr ymchwiliad felly i beidio ag ymchwilio ymhellach i 2.3c) uchod yn ystod cylch gwaith cyfredol yr ymchwiliad. Gellid o bosib ystyried ardal beilot, ar sail cost isel, yn ddarn o waith i'r dyfodol.

3.3 Gwahoddwyd arbenigwyr yn y maes er mwyn cynghori'r aelodau, sef Dr Rhian Hodges, a Dr Cynog Prys o Brifysgol Cymru, Bangor gan fod ganddynt dystiolaeth i gynorthwyo gwaith yr ymchwiliad. Croesawyd y cyfle ganddynt i gyfrannu at drafodaethau'r grwp, a chawsant eu cynnwys drwy gydol y gwaith.

3.4 Cynhaliwyd hefyd drafodaeth gyda Durk Gorter, Athro Ymchwil ac arbenigwr ym maes tirwedd ieithyddol o Ikerbasque.net, sef sefydliad Gwlad y Basg mewn gwyddoniaeth (Atodiad 2). Roedd hyn er mwyn gosod sylfaen deallusol i waith yr ymchwiliad. Yn ychwanegol at hyn, trafodwyd ei bapur, 'Linguistic Landscapes in a Multilingual World' gan aelodau'r grwp.

3.5 Cynhaliwyd trafodaeth rhwng swyddog cefnogol yr ymchwiliad ac Ann Hopcyn, Cyngor Tref Caernarfon ynglyn â gwaith y cyngor hwnnw yn hybu gwelededd y Gymraeg yn nhref Caernarfon drwy ohebu'n fuan â busnesau sy'n dymuno sefydlu yn y dref.

3.6 Yn ystod trafodaethau'r ymchwiliad, daeth materion perthnasol eraill i sylw'r aelodau, megis canfyddiadau'r Awdit o sefyllfa'r Gymraeg o fewn y Cyngor, ac arferion y Cyngor yng nghyswllt ei drefniadau cynllunio.

## 4. Prif ganfyddiadau ac argymhellion

4.1 Roedd aelodau'r ymchwiliad yn cydnabod fod nifer o ddulliau ar gael i hybu defnydd yr iaith heblaw am gynyddu gwelededd, ond mai gwelededd yw cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn.

4.2 Drwy drafodaethau'r aelodau gyda rheolwyr y Cyngor ac arbenigwyr yn y maes iaith, canfuwyd bod nifer o agweddau diwylliannol yn bwysig i newid ymddygiad er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg:

- Creu ethos, naws ac awyrgylch gartrefol sy'n annog defnyddio'r Gymraeg
- Cynyddu hyder staff a'u harfogi i ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r cyfan o'u gwaith
- Creu awyrgylch saff i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg siaradwyr rhugl a phobl sy'n dysgu'r iaith
- Rhoi croeso i bawb ddefnyddio'r iaith
- Cydweithio ar draws y Cyngor i rannu ymarfer da, a gwneud y gorau o arbenigedd y Cyngor yn y maes iaith er mwyn dylanwadu i gynyddu gweledededd yr iaith yng nghymunedau Gwynedd

4.3 Bod diwylliant a thirwedd ieithyddol unigryw Gwynedd yn rhywbeth i'w ddathlu a'i hybu ymysg pobl sy'n dewis dod i'r ardal i ymweld yn ogystal ag i fasnachu.

4.4 Bod nifer o enghreifftiau o ymarfer da yng ngwasanaethau'r Cyngor ym maes gweledededd y Gymraeg ac y dylid annog y gwasanaethau hynny i rannu eu profiadau, a gwerthu cyfieithiadau meddalwedd e.e. Eiddo, Cymunedau'n Gyntaf, Storiel, Hamdden.

4.5 Yn dilyn o lwyddiant Gwynedd gyda phrosiect y Siarter Iaith ar draws Gogledd Cymru, adnabuwyd fod posibilrwydd i'r Cyngor ddefnyddio ei arbenigedd er mwyn cynorthwyo cynghorau eraill ym maes y Gymraeg ac y byddai hynny'n fodd o ddenu incwm.

4.6 Y gall cynrychiolwyr adrannau lwyddo i gael effaith drwy ymyrryd yn gynnar, a chynnal sgwrs ynghylch y disgwyliadau pan adnabyddir nad yw cyflenwr yn cadw at delerau iaith cytundeb.

4.7 Drwy drafodaeth gyda'r Athro Durk Gorter, deallwyd nad oes tystiolaeth gadarn i ddangos fod cynyddu delwedd weledol yr iaith e.e. arwyddion, yn cynyddu defnydd y boblogaeth ohoni. Gellir fodd bynnag weithredu ar y rhagdybiaeth fod cynyddu gweledededd y Gymraeg yn arwain at gynyddu ymwybyddiaeth pobl o'r iaith.

4.8 Fodd bynnag, daeth yn amlwg fod modd cyflawni nifer o gamau bychain syml er mwyn gwireddu gwelliannau yn y maes yma.

4.9 Ei bod yn hanfodol fod argymhellion yr ymchwilad yn cefnogi cynllun gweithredu awdit iaith y Cyngor ac hefyd diwylliant Ffordd Gwynedd o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydan ni yn ei wneud.

4.10 Yn olaf, thema a oedd yn codi yn gyson drwy gydol gwaith yr ymchwiliad oedd bod angen i weithwyr y Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf bob tro, gan feddwl am y Gymraeg yn gyntaf a bod yn rhagweithiol yn ddiofyn.

4.11 Ym marn yr ymchwiliad felly, dylai'r Cyngor:

- Normaleiddio defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf
- Fod yn rhagweithiol a hybu'r Gymraeg
- Fod yn uchelgeisiol a gwthio ffiniau

4.12 Nodir canfyddiadau'r ymchwiliad ar bynciau penodol isod, gyda nodyn o'r dystiolaeth y tu cefn i'r canfyddiad hwnnw ac wedyn argymhelliad yr ymchwiliad yn ei ddilyn.

| |
|---|
| 1. **Pwnc**<br>Gweledydd yr iaith yn y Cyngor |
| 2. **Canfyddiadau**<br>Rydym yn rhagdybio fod pawb yn ymwybodol fod croeso iddynt siarad Cymraeg gyda phob un o aelodau staff y Cyngor. Fodd bynnag, mae angen peidio â chymryd hynny'n ganiataol a chydnabod y gall y Cyngor wneud mwy i arddangos hyn.<br><br>Y gellir cymryd rhai camau pellach i gynyddu gwelededd y Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd. |
| 3. **Tystiolaeth**<br><br>Adroddwyd gan gynrychiolwyr Prifysgol Bangor fod pobl sy'n dysgu Cymraeg yn adrodd eu bod yn fwy tebygol o'i ddefnyddio os ydynt yn gweld swyddogion yn arddangos y logo oren siarad Cymraeg. Ceir tystiolaeth o hyn mewn astudiaeth ymchwil a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru: Hodges et al., 2015. Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned: Astudiaeth Ymchwil. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.<br><br>Eisoes mae Siop Gwynedd wedi rhoi arwyddion iaith gwaith yn eu lleoliadau, ac mae pob aelod o staff yn defnyddio cortyn a bathodyn iaith. |

**4. Argymhellion**

A1 Gwneud yn siwr bod holl wasanaethau'r Cyngor ar gael yn y Gymraeg yn gyntaf, boed yn beiriant, ffurflen neu drwy drafodaeth. Sicrhau mai'r Gymraeg sydd yn dod gyntaf. Dylid anfon neges allan at yr holl staff yn nodi'r disgwyliadau.

A2 Bod angen gwneud mwy o ddefnydd o staff sydd yn barod i feddwl yn y Gymraeg bob amser gan eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a hybu'r iaith.

A3 Bod angen i bob rheolwr ddod i adnabod iaith ei staff gan gymryd camau i sicrhau bod pawb yn derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith Gymraeg a deall yr angen i gyfathrebu yn y Gymraeg yn gyntaf.

A4 Bod staff y Cyngor yn cael eu hannog i wisgo llinyn bathodyn siarad Cymraeg efo'r cardiau agor drysau.

A5 Gosod arwyddion uwchben bob cyntedd yn adeiladau'r Cyngor a Chanolfannau Hamdden, 'Siaradwch Gymraeg yn Gyntaf'.

A6 Adolygu arwyddion a chyfeiriadau sefydliadau'r Cyngor e.e. a yw 'Cyngor Gwynedd Council' yn angenrheidiol.

A7 Bod y Pwyllgor Iaith yn adolygu cynnydd y gwaith ar Gynllun Gweithredu'r Awdit Iaith er mwyn sicrhau cyrraedd at y canlyniadau.

1. **Pwnc**
   Hybu’r Gymraeg

2. **Canfyddiadau**
   Bod enghreifftiau wedi codi yn ystod yr awdit iaith diweddar lle bo angen gwella ymarfer ac ymddygiad ar draws y Cyngor. Roedd hyn yn ymwneud gyda’r angen i ddefnyddio’r Gymraeg yn gyntaf bob tro.

   Yn ychwanegol, mae trafodaeth gyda Gwasanaeth Cofrestru’r Cyngor wedi agwrymu bod rhai cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei wneud trwy’r Gymraeg ond bod lle i awgrymu y gellid gwneud mwy i hybu’r Gymraeg. Ar hyn o bryd, gellir naill ai gofrestru yn ddwyieithog, neu yn y Saesneg yn unig. Os yw unigolyn yn dymuno cofrestru genedigaeth, priodas neu farwolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, mae’n rhaid i’r sawl sy’n cofrestru ddewis cofrestru’n ddwyieithog. Ar ben hynny, dim ond os yw’r sawl sy’n cyflwyno’r wybodaeth yn deall Cymraeg y gellir cofrestru’n ddwyieithog.

3. **Tystiolaeth**
   Awdit iaith

   Cyfweliad gyda Joanne Parry, Rheolwr Siopau Gwynedd, Galw Gwynedd a’r Gwasanaeth Cofrestru

   Gwybodaeth gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

4. **Argymhellion**

A8 Cynnal cyswllt cyson rhwng y Cyngor a’r Brifysgol.

A9 Ystyried a oes cyfleoedd i rannu arbenigedd y Cyngor yn y maes iaith a chodi incwm.

A10 Gofyn i’r Brifysgol rannu gwybodaeth gyda’r Cyngor ar sut i ddylanwadu ar eraill a dulliau newid ymddygiad.

A11 Defnyddio data’r Siarter Iaith ar gyfer hyrwyddo defnyddio’r Gymraeg.

A12 Gofyn i’r Gwasanaeth Cofrestru annog y rhai sydd yn cofrestru digwyddiadau i gymryd y cyfle i wneud hynny’n ddwyieithog.

A13 Pwyso ar y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol i ganiatau i unigolion nad ydynt yn deall Cymraeg i gofrestru digwyddiadau yn ddwyieithog.

**1. Pwnc**
Trefniadau caffael y Cyngor

**2. Canfyddiadau**
Er bod swyddogion sy’n gosod contractau yn y Cyngor yn ymwybodol o ofynion y Polisi Iaith, mae lle i hybu hyn a symud meddylfryd a ffiniau.

Bod cwmnïau newydd angen cymorth gyda deall gofynion Polisi Iaith y Cyngor, a’r angen i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg i drigolion Gwynedd.

Y dylid cryfhau y gofynion iaith a chydnabod y bydd angen monitro, yn hytrach na phlismona.

Bod mwy y gall y Cyngor ei wneud wrth osod cytundebau gyda darparwyr allanol oherwydd nad yw amodau ieithyddol yn ddigon clir yn y cytundebau.

**3. Tystiolaeth**
Cyfweliadau gyda rheolwyr a chyfreithiwr y Cyngor (Atodiad 3).

Canlyniadau’r awdit iaith.

Derbyniwyd cadarnhad gan gyfreithiwr y Cyngor bod modd cynnwys amod mewn proses dendro bod yr ysgrifen ar gerbydau darparwyr allanol yn Gymraeg, cyn belled ei fod wedi ei gyfiawnhau ar sail hyrwyddo gwerth cymdeithasol y contract. Fe ellid dadlau bod hyrwyddo gwelededd y Gymraeg yn rhan o hyrwyddo iechyd y Gymraeg yn y gymuned, ac felly’n cyfrannu at gyfoeth diwylliannol, ac felly llesiant cymdeithasol y gymuned.

Derbyniwyd cadarnhad hefyd y gall y Cyngor ei wneud yn ofynnol i adrannau sydd yn comisiynu gwaith i’w dendro egluro pam nad yw’r Gymraeg yn hanfodol i gytundeb allanol arbennig. Mae trefniadau’r Cyngor eisioes yn gofyn i adrannau comisiynu gyfiawnhau unrhyw ofynion ieithyddol gyda chontract arbennig, a gellir fframio’r cwestiwn hwn mewn ffordd negyddol neu gadarnhaol.

**4. Argymhellion**
A14 Bod yr Uned Gaffael drwy’r timau rheolaeth categori yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw gan y gwasanaethau lle mae elfen iaith yn berthnasol i’r manylebau ac is-gontractau e.e. ychwanegu’r gofyn am arwyddion dwyieithog ar gerbydau cwmnïau allanol.

A15 Ymyrryd yn fuan os gwelir nad yw'r cyflenwr yn glynu at amodau iaith y cytundeb.

A16 Bod y ddogfennaeth caffael yn gofyn i adrannau esbonio pam nad ydi cynnwys y Gymraeg yn hanfodol yn y manylebau ac is-gontractau

1. **Pwnc**
Ymylon ffyrdd a phalmentydd

2. **Canfyddiadau**
Bod gallu'r gwasanaeth i reoleiddio arwyddion a osodir ar ymylon ffyrdd neu ar hyd palmentydd y Cyngor yn wedi ei gyfyngedig ac y gellir rheoli'r sefyllfa o safbwynt diogelwch yn unig. Gellir hefyd annog arwyddion dwyieithog.

Bod nifer o'r digwyddiadau sy'n cael eu hysbysebu ar ymylon ffyrdd a phalmentydd yn ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan gwmnïau nad ydynt yn rhai lleol.

3. **Tystiolaeth**
Gallu cyfyngedig y gwasanaeth i reoleiddio'r sefyllfa.

4. **Argymhellion**

A17 Rhoi neges reolaidd allan y dylid defnyddio'r Gymraeg ar eiddo Cyngor Gwynedd drwy ddefnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli'n barod gan gyfeirio at y gwerth economaidd i fusnesau e.e.Rhwydwaith Busnes Gwynedd, Cynghorau Tref a Chymuned, cyfryngau cymdeithasol.

1. **Pwnc**
Asedau'r Cyngor

2. **Canfyddiadau**
Mae effaith gadarnhaol gweithredu'r polisi iaith yn golygu fod cwmnïau sydd wedi cyflenwi cytundebu adeiladu yn mynd a denyddio'r arwyddion eto mewn llefydd eraill e.e. cynghorau cyfagos.

Bod peiriannau talu am barcio bellach yn gofyn am bwyso botwm am wasanaeth Saesneg, ac felly yn dangos ein bod yn defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf bob tro.

Na ellir rheoli enw adeilad.

3. **Tystiolaeth**
   Cyfweliad gyda Dafydd Gibbard, Uwch Reolwr.

4. **Argymhellion**

A18 Annog aelodau a defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol i anfon adborth am ddiffyg gwelededd y Gymraeg ar safleoedd adeiladu'r Cyngor os ydynt yn sylwi fod rhywbeth o'i le.

A19 Na ddylai penaethiaid ysgolion dderbyn unrhyw ohebiaeth a phosteri uniaith Saesneg e.e. gan archfarchnadoedd i'w gosod ar dir ysgol. Er mwyn sicrhau cysondeb ymateb, dylai'r Cyngor neu Aelod Cabinet (yn hytrach na'r Pennaeth Ysgol) gyfathrebu hyn gyda'r cwmni.

1. **Pwnc**
   Digwyddiadau a gynhelir yng Ngwynedd a thwristiaeth

2. **Canfyddiadau**
   Bod y Cyngor yn rhoi cyngor i gwmnïau sydd yn cysylltu â hwy er mwyn cael cymorth i gynlluniau busnes.

   Bod y Cyngor yn gosod amodau i ddigwyddiadau sy'n cael eu hariannu ganddo i ddefnyddio deunyddiau dwyieithog i hybu'r digwyddiad e.e. arwyddion, posteri.

   Nid yw Deddf Trwyddedu 2003 yn galluogi cynghorau i fynnu ar amod penodol fod trefnwyr gwyliau yn defnyddio'r Gymraeg wrth hyrwyddo eu digwyddiadau.

   Bod enghreifftiau o ymarfer da o ran hyrwyddo iaith yn y maes digwyddiadau e.e. yng Ngŵyl Rhif 6.

3. **Tystiolaeth**
   Cyfweliad gyda'r Athro Durk Gorter, Ikerbasque a nododd fod nifer o astudiaethau wedi sefydlu bod gwerth economaidd wrth ddefnyddio arwyddion dwyieithog. Nododd hefyd fod canfyddiad wrth holi pobl bod arwyddion dwyieithog yn brif flaenoriaeth iddynt oherwydd bod hyn yn creu cyfleoedd i ddysgwyr ac yn atgyfnerthu dysgu. Cyfeiriodd hefyd at astudiaeth fechan mewn siop a ddangosodd fod cydberthynas rhwng gweld arwydd a defnydd iaith.

Cyfweliad gyda Siân Pennant Jones, Rheolwr Marchnata a Gofal Cwsmer Twristiaeth, Hugh Edwin Jones, Rheolwr Digwyddiadau, a Sioned E Williams, Pennaeth Gwasanaeth Economi a Chymuned yn amlinellu'r sefyllfa a'r rhwystrau ynghlwm â dylanwadu ar fusnesau mewn sefyllfa lle nad oes cyfraniad cyllidol ynghlwm.

Bod cynnydd o rhwng 25-35% wedi bod yn nefnyddwyr y wefan twristiaeth Eryri Mynyddoedd a Môr ers Tachwedd 2015.

**4. Argymhellion**

A20 Bod y Cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol ac yn defnyddio pob cyfle i hybu a dylanwadu ar weledEdd y Gymraeg a chofio am y Gymraeg bob amser gan roi blaenoriaeth i'r:

- Sgwrs gychwynnol sy'n digwydd drwy gyswllt cyntaf cwmni gyda'r Cyngor lle gellir atgoffa hefyd am y budd economaidd o wneud hyn
- Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau ac sy'n cael ei chadeirio gan y Rheolwr Digwyddiadau

A21 Y dylai adrannau'r Cyngor sydd yn dod i gyswllt â'r rhai sy'n trefnu digwyddiadau gydweithio a rhoi rhestr o ddylunwyr dwyieithog iddynt.

A22 Anfon dogfen i godi ymwybyddiaeth am yr iaith allan efo'r drwydded adloniant.

A23 Defnyddio'r Fforwm Hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am y Gymraeg.

A24 Gwneud newidiadau i gyflwyniad y wefan dwristiaeth (Eryri Mynyddoedd a Môr) er mwyn cryfhau'r ymdeimlad naws am le.

**1. Pwnc**

Cynllunio

**2. Canfyddiadau**

Bod angen bod yn rhagweithiol ac ystyried yr iaith ymhob achos, gan sicrhau gwelededd amlwg i'r iaith o fewn ein trefniadau Cynllunio.

**3. Tystiolaeth**

Pwyllgor Cynllunio

| | |
|---|---|
| **4.** | **Argymhellion** |
| A25 | Bod angen i'r adran arwain yn y Gymraeg beth bynnag fo iaith y ffurflenni cais cynllunio e.e. fersiwn Gymraeg enwau strydoedd, mapiau, a chanolbwyntio i sicrhau fod y dechnoleg yn ein galluogi i ddefnyddio gwybodaeth yn y Gymraeg. |

Dymuna aelodau'r ymchwiliad ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi eu cynorthwyo yn eu gwaith.